Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Defnyddio grym

27 Mehefin 2024

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Cynnwys

**Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg** .......... 2
**Crynodeb o'r canfyddiadau** .......... 6
**Arsylwadau'r Panel** .......... 8
**Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion dalfeydd** .......... 15

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) mai prin oedd y craffu annibynnol ar anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd.

Mae'r APCC a'r NPCC wedi awgrymu y byddai panel craffu annibynnol ar gadw yn y ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn nodi arferion da a gwael.

Diben cyffredinol y panel Craffu Annibynnol ar Gadw yn y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau dalfeydd a chadw'r heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol (ond nid yn gyfyngedig i) o blith:

1) Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
2) Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal ag aelodau'r panel, roedd rhingyll y ddalfa, cynrychiolaeth o dîm sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Arolygydd Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys yn goruchwylio'r broses graffu ac yn ei chynorthwyo. Roedd hyn er mwyn cynorthwyo i roi cyngor proffesiynol i'r panel pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Y prosesau a'r gweithdrefnau yn y ddalfa mewn perthynas â defnyddio grym.
- Unrhyw gwestiynau ar y ffurflenni electronig (e-ffurflenni) a ddefnyddiwyd i gofnodi a darparu adborth at ddibenion y craffu hwn.

Er mwyn gwella dealltwriaeth y gwirfoddolwyr hefyd, cyn y cyfarfod, cafodd y gwirfoddolwyr hyfforddiant gan hyfforddwr gweithrediadau arbenigol, sy'n darparu hyfforddiant i swyddogion newydd a hyfforddiant gloywi i swyddogion profiadol, i gwmpasu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio grym yn ddiogel mewn perthynas ag unigolyn yn y ddalfa.

Dewiswyd yr achosion ar hap a'u cyflenwi gan yr heddlu, gan ganolbwyntio ar achosion o ddefnyddio grym a dillad risg arbennig (a elwid gynt yn ddillad gwrth-niwed) yn y ddalfa.

Mae'r ffocws ar ddefnyddio grym yn deillio o adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd yn 2021 o'r enw *Defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu – Sbotolau ar stopio a chwilio a defnyddoo grym*, sy'n cyfeirio o dan yr adran *Mae angen i heddluoedd wella eu monitro o sut mae grym yn cael ei ddefnyddio i ddeall a yw'n cael ei ddefnyddio'n deg:*

> *"Canfuom nad oedd digon o heddluoedd yn dadansoddi ac yn monitro'r data'n ddigonol i ddeall sut, pam ac ar bwy y defnyddiwyd grym ac i ba effaith. Roedd gormod o heddluoedd naill ai heb ddadansoddi data ar lefel heddlu, neu roedd angen datblygu eu dadansoddiad - weithiau'n helaeth. Ni all yr heddluoedd hyn asesu'n iawn, na dangos i'r cyhoedd, pa mor deg a phriodol y defnyddir grym gan eu swyddogion a'u staff; ni allant ychwaith wneud gwelliannau effeithiol yn eu harferion, gan gynnwys gwelliannau i ddiogelwch swyddogion a staff. Mewn nifer llai o heddluoedd, canfuom ddadansoddiad lefel heddlu strwythuredig. Arweiniodd hyn at ddealltwriaeth dda o sut roedd grym yn cael ei ddefnyddio, a chamau gweithredu cyflym yn cael eu cymryd lle bo angen, gan gynnwys gwelliannau i hyfforddiant diogelwch personol i leihau anafiadau.*
>
> *Mae ein rhaglen dreigl o arolygiadau dalfeydd, a gynhaliwyd ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yn cynnwys asesiad o ddefnyddio grym yn nalfa'r heddlu. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r arolygiadau hyn yn dangos nad yw llywodraethu a goruchwylio achosion o ddefnyddio grym yn ddigon da, ac mae'r data a'r wybodaeth sy'n sail i unrhyw oruchwyliaeth o'r fath yn gyfyngedig ac yn aml yn wallus. Fodd bynnag, mae'r arolygiadau hyn yn adolygu fideo teledu cylch cyfyng o ddigwyddiadau defnyddio grym yn y ddalfa, ac mae hyn yn gyffredinol yn dangos ymdrechion da i ddad-ddwysáu digwyddiadau. A phan ddefnyddir grym, fel arfer mae'n gyfiawn ac yn gymesur. Yn gyffredinol, roeddem yn disgwyl y byddai gan fwy o heddluoedd brosesau monitro mewnol effeithiol ar waith erbyn y cam hwn, ac mae angen mynd i'r afael ag absenoldeb y mesurau hyn fel mater o frys."*

Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad mwy diweddar ym mis Mehefin 2024, sef Canllawiau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu: Mae Atal Marwolaethau yn y Ddalfa a Hunanladdiadau Tybiedig yn dilyn Rhyddhau o'r Ddalfa yn nodi yn yr adroddiad hwn, o dan yr adran ***Paneli Craffu ar Gadw yn y Ddalfa;***

> *"Gall Paneli Craffu ar Gadw yn y Ddalfa graffu ar ardaloedd dan glo i sicrhau bod gan yr heddlu fesurau priodol yn eu lle i atal marwolaethau. Mae hyn yn cynnwys adolygu digwyddiadau andwyol (gan gynnwys marwolaeth, neu achos a fu bron â digwydd), craffu ar asesiadau risg cyn rhyddhau, gan sicrhau eu bod yn dilyn Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona: Asesiadau Risg Cadw a Dalfeydda disgwyliadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ar gyfer dalfeydd cyn rhyddhau unigolion yn y ddalfa, a defnyddio grym i sicrhau bod y sail resymegol y tu ôl i'r penderfyniad yn glir ac yn gyfiawn."*

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu canfyddiadau gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ystod 2022/2023, o'r 23 o unigolion a fu farw yn y ddalfa, fod 11 o'r rheini wedi profi achos o ddefnyddio grym.

Rhoddodd hyfforddwr gweithrediadau arbenigol, sy'n darparu hyfforddiant i swyddogion heddlu ar ddefnyddio grym, fewnbwn i'r panel cyn iddynt adolygu'r achosion a ddewiswyd. Pwysleisiodd yr hyfforddwr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona, sy'n datgan:

> *"Mae Deddf Cyfraith Droseddol 1967, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a chyfraith gyffredin yn berthnasol i bob achos o ddefnyddio grym gan yr heddlu ac yn mynnu y dylai unrhyw ddefnydd o rym fod yn 'rhesymol' o dan yr amgylchiadau. Mae rhesymol yn yr amgylchiadau hyn yn golygu:*
>
> - *Yn hollol angenrheidiol at ddiben a ganiateir gan y gyfraith; a*
> - *Rhaid i'r grym a ddefnyddir hefyd fod yn rhesymol a chymesur (h.y., rhaid iddo fod yr isafswm sydd ei angen o dan yr amgylchiadau i gyflawni'r amcan cyfreithlon), fel arall, mae'n debygol y bydd y grym a ddefnyddir yn ormodol ac yn anghyfreithlon."*

Mae gofyniad hefyd o fewn Heddlu Dyfed-Powys i swyddogion ystyried y Model Penderfynu Cenedlaethol wrth ddefnyddio grym sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Casglu gwybodaeth a deallusrwydd.
- Cod moeseg – gosod a diffinio safonau ymddygiad rhagorol i bawb sy'n gweithio ym maes plismona.

- Asesu bygythiad a risg a datblygu strategaeth waith.
- Ystyried pwerau a pholisi.
- Nodi opsiynau a chynlluniau wrth gefn.
- Gweithredu ac adolygu beth a ddigwyddodd.

Yn ogystal ag adolygu achosion defnyddio grym, gofynnwyd i’r panel hefyd ystyried dillad risg arbennig, a elwid gynt yn siwtiau gwrth-rwygo neu siwtiau gwrth-niwed.

Dillad risg arbennig yw’r defnydd o ddeunydd wedi’i atgyfnerthu sy’n lleihau’r risg y bydd unigolion yn y ddalfa yn gallu rhwygo dillad er mwyn hunan-niweidio trwy greu rhwymynnau. Dim ond at y diben o leihau’r risg y bydd yr unigolyn yn y ddalfa yn hunan-niwedio yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa y dylid defnyddio dillad risg arbennig ac nid at unrhyw ddiben arall. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi adrodd am bryderon cyson ynghylch defnyddio dillad risg arbennig gan nodi:

- ***Mae’r siwtiau/dillad yn cael eu cofnodi fel rhai sy’n cael eu defnyddio heb wybodaeth risg, yn aml gydag unigolion anodd yn y ddalfa, trwy rym, ac maent wedi’u nodi fel rhai a allai fod yn gosbol.***
- ***Cofnodi gwael ac arferion gwael o ran cymesuredd a chyfiawnhad dros ddefnyddio’r siwtiau.***

Ers mis Mawrth 2022, mae Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweithredu’r cynllun peilot siwt gwrth-rwygo, sy’n caniatáu i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd weld cofnodion dalfeydd unigolion o fewn dalfeydd Dyfed-Powys sydd wedi cael siwt gwrth-niwed, gan edrych yn arbennig ar:

- ***A yw’r siwtiau’n cael eu defnyddion briodol,***
- ***A ydynt yn cael eu tynnu cyn gynted â phosibl,***
- ***A oes sail resymegol ddigonol dros eu defnyddio wedi’i chofnodi yng nghofnodion y ddalfa.***

Ers mis Mai 2023, yn sgil integreiddio cronfa ddata cofnodi heddlu newydd o’r enw Niche, bu’n rhaid oedi’r cynllun peilot hwn. Gyda phrif gwnstabliaid yn cael eu hannog i sicrhau bod pob heddlu yn gweithredu swyddogaeth adroddadwy ar gyfer defnyddio dillad risg arbennig ar systemau dalfeydd i ganiatáu mwy o graffu, cydnabyddir y gall y panel Craffu’r Ddalfa barhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

Y meysydd penodol y canolbwyntiodd y panel arnynt oedd urddas a pharch, anghymesuredd, amseroldeb, oedolion priodol, a oedd dillad risg arbennig neu noeth-chwiliadau wedi eu hawdurdodi; ac os felly, a ddarparwyd sail resymegol dros unrhyw un o’r rhain.

# Crynodeb o’r canfyddiadau

I grynhoi’r canfyddiadau, roedd yr adborth cyffredinol gan y panel yn gadarnhaol ac roedd aelodau’r panel yn awyddus i amlygu’r heriau y mae staff y ddalfa yn eu hwynebu wrth wneud eu hasesiadau risg mewn amgylcheddau heriol. Asesodd y panel fod sgôr gyfartalog gyffredinol yr 16 cofnod dalfa a adolygwyd yn 4.18 allan o 5.

Mewn perthynas â’r pethau cadarnhaol, nododd y panel y canlynol:

- Ym mhob achos a graffwyd gan y panel, gosodwyd lefel arsylwi, (gan gymryd yr holl risgiau i ystyriaeth a’r sail resymegol a gofnodwyd) a chadwyd at yr holl lefelau arsylwi (tudalen 14).
- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o’r pwynt y cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa a’i awdurdodi i’w gadw oedd 23 munud a’r amser aros hiraf oedd 1 awr.
- Yr amser cyfartalog y cafodd unigolyn yn y ddalfa ei gadw yn y ddalfa oedd 19 awr ac 8 munud.
- Holwyd 81% o unigolion yn y ddalfa am unrhyw ofynion deietegol arbennig, roedd 94% o gofnodion y ddalfa a adolygwyd wedi cofnodi bod unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig bwyd a lluniaeth.
- Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob un o’r pum benyw yn y ddalfa a chofnodwyd bod 81% o’r unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig cawodydd a chyfleusterau golchi dwylo.
- Rhoddwyd eu hawliau i’r holl unigolion yn y ddalfa naill ai yn ystod y cam bwcio i mewn neu rywbryd yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.
- Nododd nifer o aelodau’r panel fod y lefelau arsylwi yn cael eu hisraddio o lefel risg uwch i Lefel 1 yn briodol yn ystod cyfnod cadw’r unigolion yn y ddalfa a’u bod yn cael eu monitro’n rheolaidd.

- O’r 16 o achosion a adolygwyd, roedd angen i 8 weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac nid oedd unrhyw oedi cyn i unigolion yn y ddalfa gael asesiad iechyd
- Darparwyd sail resymegol ar gyfer pob dilledyn risg arbennig a roddwyd i unigolion yn y ddalfa.
- O’r unigolion hynny yn y ddalfa a oedd yn destun noeth-chwiliad, nododd y panel fod sail resymegol dda wedi’i darparu.
- Darparwyd sail resymegol i’r unigolion hynny yn y ddalfa a oedd angen oedolyn priodol.

Pan nododd y panel feysydd a oedd yn achosi pryder neu feysydd y gellid eu gwella, rhannwyd eu harsylwadau â phrif arolygydd y ddalfa ac mae eu hymateb wedi’i gynnwys yn adran 3 *Arsylwadau’r Panel*.

# Arsylwadau'r Panel

Cynhyrchwyd arsylwadau'r Heddlu gan Brif Arolygydd y Ddalfa Heddlu Dyfed-Powys, Jenna Jones.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr Heddlu |
|---|---|---|
| Oedolyn priodol | Ar gyfer un cofnod unigol, nododd yr aelod o'r panel rywfaint o ddryswch ynghylch defnyddio oedolyn priodol. Roedd y cofnod cychwynnol yn nodi nad oedd angen oedolyn priodol; fodd bynnag, penodwyd un yn y diwedd ond ni ddarparwyd unrhyw sail resymegol. Nid oes unrhyw wybodaeth ychwaith ynghylch pryd y cysylltwyd â'r oedolyn priodol na phryd y cyrhaeddodd y ddalfa. Tudalen 26 | Rwyf wedi adolygu'r cofnod y ddalfa ac nid yw rhingyll y ddalfa cychwynnol wedi gofyn am oedolyn priodol gan nad yw wedi gallu asesu'n briodol oherwydd lefel y trais. Ni fyddai hyn ynddo'i hun yn awgrymu bod angen oedolyn priodol, byddai angen cwblhau asesiad risg llawn.<br><br>Mae cofnod yn y cofnod sy'n nodi cynllun gofal pellach unwaith y bydd yr unigolyn yn y ddalfa wedi tawelu. Mae rhingyll y ddalfa hefyd yn rhoi manylion asesiad risg a gofyniad am oedolyn priodol oherwydd Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd/awtistiaeth yr unigolyn yn y ddalfa a bygythiadau blaenorol i niweidio.<br><br>Mae cofnod pellach sy'n nodi y cysylltwyd â darparwr oedolyn priodol; ond, nid oedd cofnod yn nodi bod oedolyn priodol wedi cyrraedd.<br><br>I gloi, rwy'n fodlon â'r manylion yn y cofnod hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| Bylchau o ran cofnodi gofynion ychwanegol a sail resymegol dros wasanaethau cymorth. | Mae bylchau o hyd yn y gofynion ychwanegol ar gyfer unigolion yn y ddalfa:<br><br>Eitemau crefyddol - bu 3 achlysur pan na allai'r panel ganfod a gynigiwyd neu ofynnwyd am eitemau crefyddol yn unrhyw rai o gofnodion y ddalfa. Tudalen 15<br><br>Gofynion deietegol - roedd dau gofnod heb unrhyw fanylion wedi'u cofnodi a holwyd i'r unigolyn yn y ddalfa am y rhain. Tudalen 11<br><br>Cloch alw'r gell - Nid oedd modd canfod mewn naw o'r 12 cofnod a welwyd a oedd yr unigolyn yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddiadau ynghylch cloch alw'r gell. Tudalen 11<br><br>Picselu'r toiled - Nid oedd modd canfod manylion mewn naw allan o'r 12 cofnod a oedd yn cyfarwyddo'r unigolyn yn y ddalfa bod ardal y toiled wedi'i phicselu. Tudalen 12<br><br>Nododd aelod o'r panel, er bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi'i gofnodi fel un a oedd wedi nodi bod ganddo broblemau gorbryder ac iselder, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos y cysylltwyd â gwasanaeth iechyd meddwl. Tudalen 20<br><br>O'r saith cofnod a nododd fod angen oedolyn priodol, roedd chwech wedi | Byddaf yn mynd i'r afael â rhai o'r canfyddiadau unigol hyn yn eu cyfanrwydd gyda'r arolygwyr yn ystod ein cyfarfod perfformiad pan fyddwn yn adolygu'r ddogfen hon.<br><br>Mae picselu'r toiled bellach wedi'i argraffu'n glir ar y waliau uwchben y toiledau o fewn y celloedd ym mhob bloc felly nid wyf yn poeni os yw'n cael ei gofnodi yn nyddlyfr y ddalfa. Rwy'n ymwybodol bod swyddogion y ddalfa sy'n tywys unigolion ar y cyfan yn cael y drafodaeth hon fel mater o drefn wrth fynd ag unigolion yn y ddalfa i gelloedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn adolygu cofnodion defnyddio grym lle nad yw hyn o bosibl yn bosibl oherwydd lefel y trais.<br><br>Rwyf wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau penodol a godwyd ym mhwyntiau pump a chwech ar wahân. |

| | | |
|---|---|---|
| | rhoi sail resymegol. Ar gyfer y cofnod unigol roedd yn nodi nad oedd angen oedolyn priodol; ond, penodwyd un yn y diwedd ond ni ddarparwyd unrhyw sail resymegol. Nid oes unrhyw wybodaeth ychwaith ynghylch pryd y cysylltwyd â'r oedolyn priodol na phryd y cyrhaeddodd y ddalfa. Tudalen 25<br><br>Fodd bynnag, cynigiwyd hawliau a hawliadau i bob unigolyn yn y ddalfa a chynigiwyd cyfleusterau hylendid i 83% o'r 12 unigolyn, a'r unig reswm am oedi yoedd oherwydd ymddygiad treisgar unigolion yn y ddalfa. | |
| Unigolion benywaidd yn y ddalfa | O bum cofnod unigolion benywaidd yn y ddalfa a adolygwyd o dan yr adolygiad defnyddio grym, neilltuwyd swyddog o'r un rhyw i dair unigolyn a nododd un cofnod na allai aelod o'r panel ddod o hyd i wybodaeth yn nodi a ofynnwyd i'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa a hoffai siarad â rhywun o'r un rhyw.<br><br>Fodd bynnag, cofnodwyd bod pob merch wedi cael cynnig eitemau mislif. Tudalen 14 | Byddwn yn rhoi adborth i holl staff y ddalfa am hyn.<br><br>Rydym wedi gweld gwelliant yn y dyraniad swyddogion benywaidd i unigolion yn y ddalfa benywaidd ond mae bylchau o hyd fel y gwelwyd yma.<br><br>Mae hwn yn faes y bydd gwasanaethau'r ddalfa yn canolbwyntio arno wrth symud ymlaen gyda'n harchwiliadau misol. Bydd negeseuon rheolaidd yn cael eu hanfon a bydd arolygwyr y ddalfa yn cael eu hysbysu o'r angen i sicrhau bod eu staff yn cadw at hyn. |
| Gofyn am gwnsler cyfreithiol | Cyfartaledd yr amser a gymerodd yr Heddlu i gysylltu â chyfreithiwr oedd | Gall hyn ddibynnu'n fawr ar ba bryd y gofynnwyd am hyn – dylid gwneud yr |

| | | |
|---|---|---|
| | 55 munud a'r cyfnod hiraf oedd 4 awr a 7 munud.<br><br>A ddylai ceisiadau am gynrychiolaeth gyfreithiol gael eu gwneud yn gyflymach? Tudalen 16 | alwad i ofyn am gyfreithiwr bryd hynny; ond, mae llawer o ffactorau a all effeithio ar hyn; er enghraifft, bod yr unigolyn yn y ddalfa yn feddw a'i ymddygiad yn effeithio ar allu staff y ddalfa i gyfathrebu a darparu ei hawliau. Gan fod yr adolygiad hwn yn ymwneud â defnyddio grym, rwy'n dychmygu y gallai hyn fod wedi effeithio ar y data yn y maes hwn.<br><br>Nid wyf yn poeni am yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i wneud ceisiadau am gynrychiolaeth gyfreithiol. |
| Lefel arsylwi a rheoli risg | Cofnododd y panel gadarnhad 100% bod holl risgiau unigoluin yn y ddalfa wedi'u hystyried a'r sail resymegol wedi'i chofnodi. Nododd nifer o aelodau'r panel fod y lefelau arsylwi yn cael eu hisraddio'n briodol yn ystod cyfnod cadw'r unigolion yn y ddalfa a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd. Tudalen 18 | Mae hwn yn adborth ardderchog ac yn rhywbeth rydym wedi gweithio'n galed arno gyda'r staff i'w wneud yn iawn dros y deg mis diwethaf ac mae'n un o ffactorau pwysicaf taith unigolyn yn y ddalfa. Mae sicrhau bod hyn yn cael ei reoli a'i ddogfennu'n briodol yn gysur gwybod. |
| Iechyd Meddwl | Nododd aelod o'r panel, er bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi'i gofnodi fel un a oedd wedi nodi bod ganddo broblemau gorbryder ac iselder, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos y cysylltwyd â gwasanaeth iechyd meddwl. Tudalen 20<br><br>O'r 12 achos a adolygwyd, roedd angen i saith weld gweithiwr gofal | Nid oes angen asesiad iechyd meddwl o reidrwydd ar rywun sy'n nodi ei fod yn dioddef o bryder ac iselder. Byddai'n dda gennyf ddeall, o ran yr adborth hwn a oedd yr aelod o'r panel yn meddwl bod y cofnod cyffredinol a'r sail resymegol ar gyfer y cofnod hwn yn ddigonol. |

| | | |
|---|---|---|
| | iechyd proffesiynol ac nid oedd unrhyw oedi cyn i unigolion yn y ddalfa gael asesiad iechyd.<br><br>Gofynnwyd i aelodau'r panel hefyd roi sylwadau ar sut yr oedd staff y ddalfa'n ymdrin ag iechyd meddwl. Nododd aelodau'r panel ar sawl achlysur fod hanes yr unigolyn yn y ddalfa yn cael ei ddefnyddio i'w ddiogelu, y byddai hyn yn dylanwadu ar y lefel arsylwi ac ar un achlysur, cafodd iechyd meddwl ei adnabod ar unwaith, ac roedd phersonél y tîm iechyd meddwl yn bresennol o fewn tair awr i gael cais. Tudalen 25 | Mae'n braf gweld nad oes unrhyw oedi cyn gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol; rydym yn gwybod bod heriau ar hyn o bryd o ran cyflenwi gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ar draws yr Heddlu; felly, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei gael, mae'n adborth ardderchog.<br><br>Os yw rhywun mewn argyfwng iechyd meddwl yn y ddalfa, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei drin â pharch ac urddas ac yn cael y cymorth sydd ei angen. Mae'r adborth yn awgrymu bod hon yn enghraifft dda o hynny. |
| Dillad risg arbennig | O'r cofnodion dalfa yn cynnwys gwisgo dillad risg arbennig, darparwyd sail resymegol lawn a chynhaliwyd asesiadau risg parhaus. Mae hefyd yn dangos bod tystiolaeth o ddad-ddwysáu, defnyddio eitemau tynnu sylw neu ddulliau eraill i leihau lefel risg unigolion yn y ddalfa. Tudalen 21<br><br>Fodd bynnag, ar gyfer un o'r ddau unigolyn yn y ddalfa, nid oedd y cofnodion yn dangos bod dillad risg arbennig wedi'u trafod yn ystod y cyfarfod trosglwyddo, a dynnwyd dillad risg arbennig ar y cyfle cyntaf, ac ar gyfer y ddau gofnod dillad risg | Adborth calonogol iawn am ddefnyddio dillad risg arbennig.<br><br>Rwyf wedi adolygu'r cofnod hwn ac wedi dod o hyd i rai materion eraill y byddaf yn eu codi gyda'r arolygydd er mwyn iddo fynd i'r afael â hwy gydag unigolion priodol.<br>Rwyf wedi dod o hyd i'r cofnod sy'n nodi y darparwyd dillad llwyd y ddalfa ar gyfer prosesu a chyfweld. Mae yna resymeg dros ddillad risg arbennig a chynnal asesiad iechyd meddwl yn y gell oherwydd y pryderon ynghylch lles meddwl yr unigolyn yn y ddalfa. Rwy'n fodlon gyda'r sail resymegol; ond, roedd adolygiad yr arolygydd ar |


| | | |
|---|---|---|
| | arbennig nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod dillad risg arbennig wedi'u tynnu cyn y cyfweliad. Dywedodd yr aelod o'r panel ei bod yn ymddangos bod sail resymegol y dillad risg arbennig ar goll o'r cofnod.<br><br>O'r cofnodion dillad risg arbennig ychwanegol a adolygwyd:<br><br>- Atebodd pob unigolyn yn y ddalfa y cwestiynau risg.<br>- Aseswyd bod pob unigolyn yn y ddalfa mewn perygl o hunan-niweidio.<br>- Darparwyd sail resymegol ar gyfer defnyddio dillad risg arbennig ar gyfer pob un o'r pedwar unigolyn yn y ddalfa.<br>- Cafodd dillad un unigolyn yn y ddalfa ei dynnu trwy rym ac roedd yn cael ei fonitro'n barhaus fel rhan o'r asesiad risg.<br>- Nid oedd gan un unigolyn yn y ddalfa gofnod yn awgrymu ei fod wedi cael eitem tynnu sylw neu ddull arall o leihau lefel y risg. Roedd y tri arall wedi cael eitem o'r fath.<br>- Dim ond dau gofnod sy'n dangos dillad risg arbennig yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod trosglwyddo. Tudalen 31 | goll yn ogystal â'r cofnod rheoli risg trwy ddefnyddio cynlluniau gofal.<br><br>Mae'r holl bwyntiau bwled a godwyd wedi'u nodi ac ar y cyfan, rwy'n falch o'r adborth cadarnhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| Plant yn y ddalfa | O'r ddau gofnod dalfa yn ymwneud ag unigolion ifainc yn y ddalfa, cafodd y ddau eu cadw dros nos oherwydd y troseddau domestig yn gysylltiedig ag aelodau o'u teulu; ond, ni cheisiwyd gofal amgen ar gyfer y naill na'r llall yn ôl y cofnodion. Tudalen 27 | Rwyf wedi gweld y ddau gofnod yn unigol.<br><br>Mae'r cofnod cyntaf a adolygwyd yn dangos yn yr adolygiad cychwynnol bod y swyddogion wedi ceisio nodi man diogel i'r person ifanc fynd iddo ond nad oedd lle ar gael. Roedd yr unigolyn ifanc yn y ddalfa wedi bod yn arbennig o dreisgar ac yn feddw. Roedd teulu'r person ifanc yn ddioddefwyr ac yn dystion i'r digwyddiad, felly ni fyddai'n briodol am resymau diogelu i'r unigolyn ifanc ddychwelyd adref. Nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch y cofnod hwn ac rwy'n meddwl bod y cofnodi a'r sail resymegol a ddarparwyd yn dda iawn.<br><br>Roedd yr ail gofnod a adolygwyd yn dangos nad oedd llety addas ar gael ac y byddai angen delio â'r digwyddiad yn ystod y cyfnod yn y ddalfa. Roedd y person ifanc yn dreisgar yn y ddalfa ac ni fyddai opsiwn i'w leoli yn unman arall yn addas oherwydd yr ymddygiad eithafol hwn. Roedd hefyd yn feddw ac fe'i rhoddwyd ar arsylwadau Lefel 3. Dim problemau gyda'r un hwn. |


# Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion dalfeydd

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd y mae angen eu gwella ym mhob maes penodol yn y ddalfa gan ganolbwyntio ar defnyddio grym.


**Dalfeydd**




**Rhywedd**




- Roedd 58% o'r unigolion yn y ddalfa a gofnodwyd yn ddynion, o gymharu â 42% yn fenywod.
- Ni chofnodwyd unrhyw rywedd arall.




**Oedran**


O’r 16 o gofnodion dalfa defnyddio grym a welwyd gan y panel:

- Roedd dau o’r rheiny o dan 18 oed.
- Roedd y mwyafrif yn yr ystod oedran 31-40 oed.
- Nid oedd unrhyw gofnodion o unigolyn yn y ddalfa rhwng 51 a 60 oed.


**Ethnigrwydd**

- Cofnodwyd ethnigrwydd un unigolyn yn y ddalfa fel ethnigrwydd Asiaidd.
- Diffiniwyd y lleill naill ai fel Gwyn Prydeinig neu Gwyn Gogledd Ewrop.

**Amseroedd cyrraedd y ddalfa**



## Amseroedd awdurdodi i'r ddalfa





## Amser a aeth heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi eu cadw

- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r adeg y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a'i awdurdodi i'w gadw yno oedd 23 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd 1 awr.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn gael ei awdurdodi i'w gadw yn y ddalfa oedd 1 munud.
- Dywedodd y panel fod sail resymegol wedi'i chofnodi ar un achlysur oherwydd ymosodiad ar heddwas, tra bod oedi arall oherwydd cau dalfa leol, gan olygu awr o siwrnai cyn i'r unigolyn yn y ddalfa gael ei brosesu yn y ddalfa agosaf.


## Cyfanswm yr amser yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog y cafodd unigolyn yn y ddalfa ei gadw yn y ddalfa oedd 19 awr ac 8 munud.
- Yr amser hiraf i unigolyn gael ei gadw yn y ddalfa oedd 2 ddiwrnod 17 awr a 2 funud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf i unigolyn gael ei gadw yn y ddalfa oedd 8 awr a 36 munud.





## Gofynion crefyddol

- O’r 16 cofnod, roedd 3 achlysur pan na allai’r panel ganfod a gynigiwyd neu ofynnwyd am eitemau crefyddol yn unrhyw un o’r cofnodion dalfa a adolygwyd.





## Gofynion deietegol arbennig

- Gofynnwyd i 81% o unigolion yn y ddalfa a oedd ganddynt unrhyw ofynion deietegol arbennig o gymharu â dau achos lle nad oedd unrhyw fanylion wedi’u cofnodi y gofynnwyd hyn i’r unigolyn yn y ddalfa.





## Cloch alw’r gell

- Nododd y panel na allai 69% ganfod ar y cofnod bod unigolion yn y ddalfa yn cael eu cyfarwyddo ynglŷn â’r gloch alw sydd wedi’i lleoli yn eu cell ddalfa. Mewn cyferbyniad, dim ond 19% a gofnododd fod unigolion yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd.




## Picselu’r toiled


- Ni allai 62% o’r panel ddod o hyd i unrhyw wybodaeth a oedd yn nodi bod picselu’r toiled wedi’i hysbysu i’r unigolyn yn y ddalfa yn ystod ei gyfnod cadw.
- Cofnododd 25% eu bod wedi gwneud hynny a nododd 13% nad oeddent wedi gwneud hynny.




## Cynnig bwyd a lluniaeth


- Roedd 94% o gofnodion y ddalfa a adolygwyd wedi cofnodi bod unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig bwyd a lluniaeth.


## Unigolion benywaidd yn y ddalfa





**Swyddog benywaidd wedi'i neilltuo ar gyfer unigolion benywaidd ifanc yn y ddalfa.**

- O bum cofnod unigolyn benywaidd yn y ddalfa a adolygwyd, neilltuwyd swyddog o'r un rhywedd i dair.
- Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob menyw.
- Nid oedd ond un cofnod lle na ellid canfod a ofynnwyd i'r unigolyn benywaidd yn y ddalfa a hoffai siarad â rhywun o'r un rhywedd.




## Ceisiadau hylendid





- Cofnodwyd bod 81% o unigolion yn y ddalfa yn cael cynnig cawodydd a chyfleusterau golchi dwylo.
- Mewn perthynas â sylwadau ynghylch hylendid, nododd un aelod o'r panel nad oedd yn ymddangos bod papur toiled wedi'i gyflenwi tan lawer yn ddiweddarach yn y cyfnod yn y ddalfa lle cofnodwyd bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi gofyn amdano.
- Nododd eraill fod pob hawl wedi ei gynnig i unigolion yn y ddalfa a ni chafodd rhai ohonynt fynediad at y rhain yn syth oherwydd eu hymddygiad treisgar.

## Sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa





- Mae system sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa wedi'i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi afiachedd a risg marwolaethau yn y ddalfa.





## Hawliau

- Rhoddwyd eu hawliau i'r holl unigolion yn y ddalfa naill ai yn ystod y cam bwcio i mewn neu rywbryd yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.
- Mae'r siart cylch hwn yn dangos bod 19% o unigolion yn y ddalfa wedi profi oedi cyn cael cynnig eu llyfryn Hawliau; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y llyfryn hwn yn ddewisol a bod gan unigolion yn y ddalfa yr hawl i wrthod yr opsiwn hwn o gael y llyfryn tra yn y ddalfa.




**Pa mor hir, ar ôl awdurdodi cadw, y gofynnodd yr unigolyn yn y ddalfa am gyfreithiwr?**

- Yr amser cyfartalog a gymerodd i unigolyn yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 3 awr ac 8 munud.
- Mewn pump o'r achosion, gwnaeth yr unigolyn yn y ddalfa gais am gyfreithiwr o fewn 25 munud.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 12 awr a 30 munud.
- Gwelodd neu siaradodd 69% o'r unigolion yn y ddalfa â chyfreithiwr yn ystod eu carchariad.





**Faint o amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser cyfartalog a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr 26 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 6 awr a 30 munud.
- Y cyfnod byrraf oedd yn syth ar ôl gofyn am hyn.

**Faint o amser a gymerodd i'r cyfreithiwr gyrraedd ar ôl cysylltu ag ef**

- Yr amser cyfartalog i gyfreithiwr gyrraedd oedd 11 awr ac 20 munud.
- Roedd dau achlysur pan gyrhaeddodd cyfreithiwr mwy na 14 awr ar ôl i'r unigolyn gael ei gadw yn y ddalfa.
- Yr amser byrraf a nodwyd oedd 40 munud.

- Dim ond ar ddau achlysur y darparwyd sail resymegol i egluro'r oedi yn ôl y panel. Ar bedwar achlysur arall ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw sail resymegol.
- Nododd y panel hefyd fod yr oedi wedi'i egluro ar un achlysur oherwydd ymddygiad treisgar yr unigolyn yn y ddalfa a'r angen am driniaeth feddygol. Roedd dau achos lle nad oedd y cyfreithiwr y gofynnwyd amdano ar gael a gofynnwyd i'r unigolyn yn y ddalfa a hoffai gael cyfreithiwr ar ddyletswydd yn lle hynny.






**Lefel arsylwi**

- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).


- Cofnododd y panel gadarnhad 100% bod holl risgiau'r unigolyn yn y ddalfa wedi'u hystyried a'r sail resymegol wedi'i chofnodi.Cofnodwyd Lefel 4 a Lefel 1 fel y graddau risg mwyaf cyffredin gyda'r ddau yn 43%.
- Barnwyd y glynwyd at 63% o'r lefelau arsylwi o gymharu ag un lle na wnaethpwyd hynny. Mewn pump o'r achosion, ni allai'r panel ddod o hyd i gofnod.

- Nododd nifer o aelodau'r panel fod y lefelau arsylwi yn cael eu hisraddio o lefel risg uwch i Lefel 1 yn briodol yn ystod cyfnod cadw'r unigolion yn y ddalfa a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd.


A OEDD YR UNIGOLYN IFANC YN Y DDALFA ANGEN CAEL EI DDEFRO'N GYSON?
8
7
1
Do
Naddo
Amherthnasol


A LYNWYD AT HYN? (GAN GYNNWYS Y 4R)
10
1
5
Do
Naddo
Ni chanfuwyd manylion yn y cofnod

**Gwasanaethau cefnogi**





- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 75% o unigolion yn y ddalfa, ac ni chynigiwyd gwasanaethau cymorth i 19%.
- O'r tri hynny na ddarparwyd gwasanaethau cymorth iddynt, yn un o'r achosion, nododd aelod o'r panel, er bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi'i gofnodi fel un a oedd ganddo broblemau gorbryder ac iselder, nid oedd unrhyw gofnod yn dangos y cysylltwyd â gwasanaeth iechyd meddwl.
- Nododd y panel mai'r mathau canlynol o wasanaethau oedd yn cael eu cynnig, sef Llwybrau Newydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.


## Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a dillad risg arbennig a elwid *gynt yn siwtiau gwrth-rwygo*

| Reason for Rating | Follow Up Action |
|---|---|
| Drop down in use, full rationale for use of suit, which is both justifiable and proportionate to risk posed. | No further action required at this point. |
| Suit removed as soon as practicable. | |
| Clear de-escalation, distraction items etc. used to mitigate risk of detainee DSH. | |
| Little or unlclear justification for the use of the suit. | Advice/further training given to custody staff. |
| Insuffcient information to determine the proportionality of the use of the suit. | |
| Detainee left in suit for elongated periods of time. | |
| Suit drop down used but no further information. | Further exploration required as to use/rationale. Cases to be raised with custody inspector. |
| Suit used in absence of risk information but no other rationale. | |
| Suit used by force with no further information. | |
| Drop down not used, information on suit discovered as part of routine CRR by ICVs | |


### Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol


- O'r 16 achos a adolygwyd, roedd angen i wyth weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac ni fu unrhyw oedi cyn i'r unigolion yn y ddalfa gael asesiad iechyd.









## Dillad risg arbennig a defnyddio grym























**Yn gyffredinol, nododd y panel:**

O’r chwe achos hynny, lle rhoddwyd dillad risg arbennig i’w gwisgo:

a) Roedd pob cam priodol wedi’i gymryd yn brydlon ac ar y lefel gywir.

b) Cedwir cofnodion yn dda a chânt eu diweddaru.

c) Atebodd pob unigolyn yn y ddalfa y cwestiynau risg.


d) Aseswyd bod pob unigolyn yn y ddalfa mewn perygl o hunan-niweidio.

e) Darparwyd sail resymegol ar gyfer defnyddio dillad risg arbennig ar gyfer pob un o’r chwe unigolyn yn y ddalfa.

f) O’r tri unigolyn yn y ddalfa y tynnwyd eu dillad trwy rym, roeddent i gyd yn cael eu monitro’n barhaus fel rhan o’r asesiad risg.


g) Nid oedd gan un unigolyn yn y ddalfa gofnod yn awgrymu ei fod wedi cael eitem tynnu sylw neu ddull arall o leihau lefel y risg. Roedd y pump arall wedi cael eitem o’r fath.

h) Pedwar cofnod yn unig sy'n dangos dillad risg arbennig yn cael eu trafod yn ystod y trosglwyddo.
i) Nododd y panel, o dan amgylchiadau anodd iawn, fod staff y ddalfa wedi ymateb yn dda.
j) O'r ddau achos lle defnyddiwyd dillad risg arbennig, ni chawsant eu tynnu cyn y cyfweliad.
k) Roedd sail resymegol ac esboniad da wedi'u darparu ar gyfer un o'r unigolion yn y ddalfa a oedd yn destun dillad risg arbennig, ac roedd yn ymddangos bod y cofnod arall ar goll; fodd bynnag, nodwyd ar gyfer yr achos penodol hwn, bod trais yn cael ei nodi fel nodwedd o ymddygiad yr unigolyn yn y ddalfa wrth gael ei arestio ac unwaith eto ar gael ei dderbyn i'r ddalfa.





- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol ynghylch sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

a) Roedd yr unigolyn yn y ddalfa yn cael gofal da. Nid oedd nodiadau i awgrymu unrhyw bryder bod y unigolyn yn y ddalfa wedi cael unrhyw niwed tra yn y ddalfa. Roedd asesiad risg da a oedd yn cynnwys bregusrwydd unigolyn yn y ddalfa yn ymwneud â hunan-niweidio neu iechyd meddwl.
b) Mae'n ymddangos bod sail resymegol dillad risg arbennig ar goll o'r cofnod.




## Noeth-chwiliad

- O’r unigolion hynny yn y ddalfa a oedd yn destun noeth-chwiliad, nododd y panel fod sail resymegol dda wedi’i darparu. Un sail resymegol a nodwyd oedd y canlynol: Er nad oedd angen dillad risg arbennig, cafodd yr unigolyn yn y ddalfa noeth-chwiliad yn ddiweddarach oherwydd iddo guddio tabledi ar ei gorff ac i hyn gael ei nodi yn ystod ei alwad ffôn.




## Iechyd meddwl, oedolion priodol a materion eraill yn ymwneud â bregusrwydd

- Gofynnwyd i’r panel am eu harsylwadau, mewn perthynas â sut yr oedd staff y ddalfa’n ymdrin â phryderon iechyd meddwl yn y ddalfa. Nododd y panel:

a) Roedd staff y ddalfa yn ymwybodol o hanes yr unigolyn yn y ddalfa ac yn defnyddio hwn i’w ddiogelu yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa.


b) Roedd tîm y ddalfa yn gofalu am yr unigolyn yn y ddalfa, gyda lefelau arsylwi’n cael eu rheoli’n briodol.

c) Nodwyd y pryderon iechyd meddwl ar unwaith ac roedd aelodau o’r tîm iechyd meddwl yn bresennol o fewn tair awr i gyflwyno cais amdanynt.

- O’r chwe chofnod a nododd fod angen oedolyn priodol, roedd chwech yn cynnwys sail resymegol. Ar gyfer un cofnod unigol, nododd yr aelod o’r panel rywfaint o ddryswch ynghylch y defnydd o oedolyn priodol. Roedd y cofnod cychwynnol yn nodi nad oedd angen oedolyn priodol; fodd bynnag, penodwyd un yn y diwedd ond ni ddarparwyd unrhyw sail

resymegol. Nid oes unrhyw wybodaeth ychwaith ynghylch pryd y cysylltwyd â'r oedolyn priodol na phryd y cyrhaeddodd y ddalfa.

- Y cyfnod hiraf o amser i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 4 awr a 30 munud a'r ail hiraf oedd 3 awr. Mewn cyferbyniad, y cyfnod byrraf o amser oedd 33 munud.




- Yr amser cyfartalog i unigolyn yn y ddalfa gael cyswllt cyntaf ag oedolyn priodol oedd 5 awr a 29 munud.
- Nododd y panel fod y sail resymegol dros oedi cyn i oedolyn priodol gyrraedd wedi'i gofnodi ar gyfer 3 o'r 4 cofnod.
- Nododd y panel y sylwadau canlynol ynghylch darpariaeth oedolyn priodol:


*a) Ni allai'r rhiant enwebedig fod yn oedolyn priodol gan mai ef neu hi oedd y dioddefwr. Ceisiwyd yr oedolyn priodol arall ar gyfer y bore.*
*b) Ni chofnodwyd unrhyw sail resymegol nac amseroedd y cysylltwyd ag oedolyn priodol.*
*c) Trais cychwynnol a gwrthod ymgysylltu oedd y rheswm am yr oedi.*

**Plant yn y ddalfa**

- O'r ddau unigolyn ifanc yn y ddalfa, nododd y panel:
  a) Cafodd y ddau berson ifanc eu cadw dros nos, cyhuddwyd un ac ni chyhuddwyd y llall.
  b) Roedd y sail resymegol dros gadw'r ddau unigolyn ifanc yn y ddalfa dros nos yn ymwneud â cham-drin domestig, ac roedd y dioddefwyr yn aelodau o'r teulu.
  c) Ni cheisiwyd gofal amgen ar gyfer y naill na'r llall.
  d) Defnyddiwyd rhestr wirio Plant yn y Ddalfa yn y ddau achos.

e) Dywedwyd y ceisiwyd ffrind i'r teulu fel oedolyn priodol ar gyfer un o'r unigolyn ifanc yn y ddalfa, ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol tan y bore canlynol.

**Sgôr cyffredinol**




- Gofynnwyd i'r panel roi sgôr allan o bump ar ddiwedd pob cofnod dalfa, gyda'r arweiniad bod un yn golygu bod angen gwelliant a phump yn rhagorol.
- Asesodd y panel mai sgôr gyfartalog gyffredinol ar gyfer y defnyddio grym yr 16 cofnod dalfa a adolygwyd oedd 4.18.